# FFORWM MYNEDIAD LLEOL BRO MORGANNWG

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Hydref, 2025.

Yn bresennol: I.A.N. Perry (Cadeirydd); W.A. Hennessy (Is-gadeirydd); I. Fraser, K. Lucas, S. McMillan, G. Thomas a Cynghorydd E. Williams.

Hefyd yn bresennol: G. Davies (Ysgrifennydd), D. Hunt ac S. Thomas (Cyngor Bro Morganwg), A. Davies (Llywodraeth Cymru) ac R. Hewitt (Cyfoeth Naturiol Cymru).

(a) Ymddiheuriad Am Absenoldeb –

Derbyniwyd hyn gan S. Campbell.

(b) Cofnodion –

CYTUNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Ebrill, 2025 fel cofnod cywir.

(c) Cyflwyniad – Coedwig Genedlaethol a Llwybr Newydd – Andrew Davies, Llywodraeth Cymru –

Derbyniodd y Fforwm gyflwyniad PowerPoint ar gynlluniau i greu coedwig genedlaethol a llwybr natur newydd. Ar gyfer hyn, croesawodd y Fforwm Andrew Davies o Lywodraeth Cymru a Rhodri Hewitt o Gyfoeth Naturiol Cymru.

Y nod oedd creu llwybr coetir cysylltiedig ar draws Cymru. Roedd adran beilot 185 cilomedr o hyd wedi'i chlustnodi i ddechrau ym Mhorthceri a gorffen ym Mannau Brycheiniog, gan fynd trwy Fro Morgannwg, Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, a Chastell-nedd Port Talbot.

Roedd manteision y llwybr yn amgylcheddol, economaidd, a byddent yn cynorthwyo gydag ymgysylltiad cymunedol cryf. Roedd rhai heriau gan gynnwys cydweithrediad tirfeddianwyr, hygyrchedd, seilwaith.

Roedd amserlen y prosiect yn uchelgeisiol, gyda nod o gwblhau'r peilot erbyn mis Mawrth 2026. Croesawyd adborth gan aelodau'r Fforwm ar y llwybr arfaethedig, mynediad, a chynaliadwyedd.

Dangoswyd fideo i'r Fforwm o arddangosiad hedfan drosodd o'r llwybr arfaethedig.

Trafododd y Fforwm rai llwybrau amgen, problemau mynediad i dir, a gwelliannau posibl a rhoddodd rai awgrymiadau gan gynnwys gosod gorsafoedd ail-lenwi dŵr, gwella hygyrchedd (e.e. gatiau yn hytrach na chamfeydd) ac opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy (e.e. beicio).

(d) Adroddiad Blynyddol y Fforwm Mynediad Lleol 2023/24 –

Cyflwynodd yr Ysgrifennydd, G. Davies, Adroddiad Blynyddol y Fforwm Mynediad Lleol (FfML) ar gyfer 2023/24 a oedd yn rhoi crynodeb o'r gweithgareddau allweddol a gwmpeswyd yn ystod y cyfnod adrodd.

Ymhlith y pynciau a gwmpeswyd yn yr adroddiad roedd Gorchmynion Cyfreithiol, Grantiau Gwella Mynediad, cyflwyniadau Cyfoeth Naturiol Cymru a'r cynllun peilot llwybr natur. Nod yr adroddiad oedd arddangos gwaith y FfML i'r cyhoedd ac amlinellu gwaith y Fforwm i unrhyw aelodau newydd posibl.

CYTUNWYD – Y dylid cymeradwyo Adroddiad Blynyddol drafft y FfML i'w gyhoeddi.

(e) Diweddariad Cynnal a Chadw –

Byddai diweddariad ar weithgareddau cynnal a chadw yn cael ei ddarparu o dan Eitem Agenda G – Diweddariad Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.

(f) Diweddariad Gorchmynion Cyfreithiol –

Byddai diweddariad ar Orchmynion Cyfreithiol yn cael ei ddarparu o dan Eitem Agenda G – Diweddariad ar Gynllun Gwella Hawliau Tramwy.

(g) Diweddariad Cynllun Gwella Hawliau Tramwy 2024/25 –

Rhoddodd David Hunt (Swyddog Hawliau Tramwy) ddiweddariad ar gynnydd Cynllun Gwella Hawliau Tramwy'r Cyngor. Roedd y Cynllun yn cynnwys cyfanswm o 44 pwynt gweithredu yn amrywio o reoli gwasanaethau, gwaith cyfreithiol, cynnal a chadw a hygyrchedd.

Yn ystod 2024/25, roedd 237 o gatiau newydd a 7 pont droed newydd wedi'u gosod ynghyd â 55 o bostiau marcio ffordd newydd wedi'u hadeiladu a dros 100 cilomedr o lystyfiant wedi'i glirio. Yn ogystal, roedd Llwybr Mawr Morganwg yn mynd rhagddo'n dda gyda dros 8 cilomedr o lwybrau newydd wedi'u cytuno. Roedd hynny i gyd yn cynrychioli llawer iawn o waith i'r Tîm Hawliau Tramwy, a oedd yn bennaf yn gyraeddadwy trwy arian grant a dderbyniwyd trwy Gyfoeth Naturiol Cymru, y Grant Gwella Mynediad a'r Cyllid Ffyniant a Rennir. Roedd y rhan fwyaf o'r cyllid i fod i ddod i ben y flwyddyn nesaf, felly ni fyddai'r Tîm yn gallu gosod dodrefn newydd i'r lefelau a gyflawnwyd yn ddiweddar.

Amlygwyd ymgysylltiad cymunedol fel maes cryfder, gyda chyfarfodydd rheolaidd gydag 8 grŵp clwstwr o Gynghorau Cymuned neu Dref. Yn ogystal, roedd cysylltiadau cryf â grwpiau gwirfoddol a sefydliadau fel yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Canmolodd David Hunt gefnogaeth y gwirfoddolwyr a oedd wedi cynorthwyo dros 120 o brosiectau hawliau tramwy ledled Bro Morganwg.

O ran gorchmynion cyfreithiol, roedd llwybr troed 72/73 (Melin Trebefered) ar hyn o bryd gyda PCAC i'w benderfynu.

Canmolodd y Fforwm faint o waith a wnaed gan y Tîm Hawliau Tramwy a chododd bryder ynghylch y gostyngiad posibl mewn cyllid a'r lefel bresennol o ansicrwydd ynghylch a fyddai'r Grant Gwella Mynediad yn parhau y tu hwnt i'r flwyddyn nesaf.

(h) Trefniadau'r Fforwm Mynediad Lleol yn y Dyfodol – Fforwm Mynediad Lleol ar y cyd â Chaerdydd o bosibl –

Cododd yr Ysgrifennydd fod trafodaethau rhagarweiniol wedi bod ynghylch cynnig i uno Fforymau Mynediad Lleol Bro Morganwg a Chaerdydd.

Y rhesymeg dros hynny oedd cydweithio strategol ag Awdurdod cyfagos ac oherwydd bod Caerdydd wedi cael trafferth sefydlu ei Fforwm ei hun ers nifer o flynyddoedd. Roedd yna hefyd y potensial ar gyfer adnoddau a rennir a chynrychiolaeth ehangach.

Wrth drafod y cynnig, cododd aelodau’r Fforwm rai pryderon:

- Risg o fuddiannau Bro Morganwg yn cael eu cysgodi;
- Yr angen am aelodaeth gytbwys a chynrychiolaeth wledig;
- Pwysigrwydd cynnal ffocws lleol ac ymreolaeth.

Gofynnwyd i aelodau’r Fforwm gyflwyno adborth i’r Ysgrifennydd drwy e-bost i’w ystyried gan y rheolwyr, cyn penderfynu a oedd rhinwedd mewn bwrw ymlaen â’r cynigion.